# Y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | **9 Hydref 2003** |
| **Amser:** | **09.00** |
| **Lleoliad:** | **Ystafelloedd Pwyllgora 3 a 4, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol** |
| **Teitl:** | **Adroddiad y Gweinidog** |

## Diben

1. Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am nifer o faterion sydd wedi codi ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor.

## Argymhelliad

2. Dylai'r aelodau nodi cynnwys yr adroddiad.

## Cefndir

3. Cynhaliwyd cyfarfod diwethaf y Pwyllgor ar 26 Mehefin 2003. Mae'r papur hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf.

## Gweithgareddau Rhyngwladol Prif Weinidog Cymru

- **9 Gorffennaf** – Yn ystod ymweliad Prif Weinidog Seland Newydd, cynhaliwyd cyfarfod dwyochrog a chafwyd cinio a derbyniad o dan wahoddiad Prif Weinidog Cymru.
- **11 Gorffennaf** – Cyfarfod ag Uwch Gomisiynydd India.
- **27 Gorffennaf** – Cyfarfod â dirprwyaeth o Gyngreswyr yr Unol Daleithiau.
- **1-5 Medi** – Taith fasnach i Latfia ac Estonia. (Gweler isod.)
- **6 Medi** – Milan, cyfarfod â swyddogion y Brifysgol a chynnal derbyniad MasnachCymru Rhyngwladol/Awdurdod Datblygu Cymru.
- **10 Medi** – Cyfarfod â Llysgennad y Ffindir yn ystod ei ymweliad â Chaerdydd.
- **11-12 Medi** – St Malo, Cynhadledd y Rhanbarthau Morol Ymylol. (Gweler isod.)
- **24 Medi 2002**– Mynd i dderbyniad a chinio gala i nodi bod Cynulliad Cyffredinol Cymdeithas Ewropeaidd yr Awdurdodau Rhanbarthol a Lleol ar gyfer Dysgu Gydol Oes (EARLALL) yn cyfarfod yng Nghaerdydd.

4. Am gweler **atodiad 1** am weithgareddau cenedlaethol arall.

## Y Prif Faterion

5. **Taith fasnach i Estonia a Latfia.** Trefnwyd f'ymweliad â Latfia ac Estonia yn sgil gwahoddiadau oddi wrth Lysgenhadon ei Mawrhydi yn Tallinn a Riga. Gan fod MasnachCymru Rhyngwladol wedi trefnu taith fasnach aml-sector i Estonia a Latfia, roedd yn gyfle i mi dderbyn y gwahoddiadau hynny a chefnogi digwyddiad MasnachCymru Rhyngwladol ar yr un pryd. Cefais gyfle hefyd i drafod â nifer o wleidyddion blaenllaw, academyddion, a phobl fusnes.

6. **Cynhadledd y Rhanbarthau Morol Ymylol 11-12 Medi**. Roeddwn yn bresennol yn negfed cyfarfod blynyddol ar hugain Cynhadledd y Rhanbarthau Morol Ymylol, ac roeddwn yn cadeirio un o'i gyfarfodydd llawn allweddol ar gydlynu'r tiriogaethau pan fydd yr Undeb Ewropeaidd wedi ehangu. Ymhlith y siaradwyr yr oedd y Comisiynydd Ewropeaidd Barnier. Roedd yn amlwg bod aelodau'r Gynhadledd yn pryderu ynghylch unrhyw gynigion i ailwladoli cyllid rhanbarthol, a hynny oherwydd bod y cynigion yn eu barn hwy yn groes i'r nod o greu Undeb Ewropeaidd dyfnach ac ehangach. Amlinellais gynigion Llywodraeth y DU ar gyfer polisi rhanbarthol yr UE ar ôl 2006, ynghyd â'n hymateb ni i'r cynigion hynny yn fy llythyr at Lywodraeth y DU ar 11 Gorffennaf. Eglurais gynigion Llywodraeth y DU, gan gynnwys y gwarant y bydd yn rhoi cyllid sy'n cyfateb i'r swm y byddwn yn ei dderbyn o Gronfeydd Strwythurol yr UE. Pwysleisiais y byddwn yn y pen draw yn cefnogi'r hyn sy'n sicrhau'r fargen orau i Gymru, a hynny o ran polisïau a chyllid.

7. Cefais i a **Josselin de Rohan, sef Llywydd Cyngor Rhanbarth Llydaw,** gyfarfod arbennig o dda. Cawsom gyfle i drafod nifer o faterion, gan gynnwys llunio Memorandwm Dealltwriaeth ffurfiol rhwng Cymru a Llydaw. Gallai'r Memorandwm hwnnw gwmpasu band eang, amaethyddiaeth, twristiaeth, datblygu economaidd, addysg, iaith a threftadaeth, ynghyd â nifer fawr o faterion eraill sy'n gyffredin i'r ddwy wlad.

8. Bu'r **Comisiynydd Michel Barnier**, sy'n gyfrifol am bolisi rhanbarthol yr UE, yn ymweld â Chymru ar 26 Medi, a hynny yn sgil gwahoddiad oddi wrth Lywodraeth Cynulliad Cymru. Bu M. Barnier yn ymweld â phrosiectau sydd wedi'u hariannu gan gyllid Amcan 1 ac Amcan 2, ac yn cyfarfod â rhanddeiliaid allweddol Cymru, gan gynnwys Cadeiryddion y Pwyllgorau. Yn ystod yr ymweliad byr, cafwyd cyfle i ganolbwyntio ar y rhaglenni cyfredol ac ar ddyfodol polisi rhanbarthol yr UE.

9. **Yr Ewro.** Ar 28 Gorffennaf, cynhaliodd Ysgrifennydd Gwladol Cymru, Peter Hain AS, gyfarfod cyntaf Pwyllgor Paratoi Cymru ar gyfer yr Ewro. Mae cofnodion y cyfarfod hwnnw, sydd wedi'u cyhoeddi ar wefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru, i'w gweld yn **atodiad 2**. Dyma un o'r mesurau a amlinellwyd yn araith y Canghellor ynghylch y Pum Prawf Economaidd ar 9 Mehefin. Mae cynrychiolwyr prif sectorau economaidd Cymru yn aelodau o'r Pwyllgor a byddant yn rhoi cyngor i'r Ysgrifennydd Gwladol ynghylch y materion hynny sy'n berthnasol i Gymru wrth newid o'r bunt i'r ewro. Bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn bwydo sylwadau'r Pwyllgor hwnnw i Bwyllgor Sefydlog y Canghellor i Baratoi ar gyfer yr Ewro. Mae Peter Hain yn aelod o'r Pwyllgor Sefydlog.

10. Cyfarfu'r Pwyllgor am yr eildro ar 25 Medi a byddaf yn rhoi adroddiad llafar ar y cyfarfod hwnnw.

11. Rwyf i, Sue Essex, y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus, a Syr Jon Shortridge, yr Ysgrifennydd Parhaol, yn cynrychioli Llywodraeth Cynulliad Cymru ar y Pwyllgor hwnnw.

12. Cyhoeddodd **Alun Pugh, y Gweinidog dros Ddiwylliant**, y byddai modd defnyddio'r ewro ym mhedwar atyniad mwyaf CADW i dwristiaid yng Nghymru, a hynny o 9 Gorffennaf. Yr atyniadau o dan sylw yw cestyll Caerffili, Conwy a Chaernarfon, ynghyd ag Abaty Tyndyrn. Nid oes llawer wedi manteisio ar y cyfle i ddefnyddio'r ewro hyd yma, ond mae mwy o bobl wedi'i ddefnyddio yn y gogledd nag yn y de.

13. **A Constitutional Treaty for the EU: The British Approach to the European Union Inter Governmental Conference 2003**. Fis diwethaf, cyflwynwyd y Papur Gwyn gerbron Senedd y DU. Mae'n rhoi braslun o hanes yr UE ac aelodaeth y DU ohono, y broses ehangu ddiweddar a'i heffaith, y Confensiwn ar Ddyfodol Ewrop, a'r gobeithion ar gyfer y Gynhadledd Rynglywodraethol.

14. Mae'n dda iawn gennyf weld bod y Papur Gwyn yn cynnwys crynodeb o rôl y Gweinyddiaethau Datganoledig yn y gwaith o lunio polisi'r DU yn ystod y Confensiwn, ynghyd â braslun o'r papur a gyflwynwyd i'r Confensiwn gan Peter Hain ar ran y Llywodraeth a'r Gweinyddiaethau Datganoledig. Mae'r papur hwnnw yn galw ar i'r Comisiwn Ewropeaidd ymgynghori'n fwy trwyadl â'r awdurdodau rhanbarthol a'r awdurdodau lleol cyn llunio deddfwriaeth ac yn galw am fesurau i sicrhau bod Pwyllgor y Rhanbarthau yn fwy effeithiol.

15. **Polisi Rhanbarthol**. Ar 17 Medi, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ddatganiad yn cadarnhau y byddai ei thrafodaethau â'r Comisiwn Ewropeaidd a grwpiau eraill yn seiliedig ar syniad y Polisi Rhanbarthol Modern. Bydd y gwaith yn cychwyn yn ystod cyfarfod Gweinidogol anffurfiol ar bolisi rhanbarthol yn Rhufain ar 20 Hydref. Bydd yr Adran Masnach a Diwydiant a Gweithrediaeth yr Alban yn cynrychioli'r DU yn y cyfarfod hwnnw. Roeddwn i'n bresennol yn y cyfarfod diwethaf yng Ngwlad Groeg ym mis Mai. Mae mwy o wybodaeth ar gael yn EUR(2) 02-03(p3) – y Wybodaeth Ddiweddaraf am y Cronfeydd Strwythurol.

**Rhodri Morgan AC**

**Prif Weinidog Cymru**